Hawdd ei Ddeall

Sgrinio Serfigol Cymru
Cervical Screening Wales

# Am eich apwyntiad colposgopi



GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

icc.gig.cymru/sgrinio-serfigol

# Cynnwys:  Beth sydd yn y daflen hon


Beth sydd yn y daflen yma? 5

Pam ydw i angen colposgopi? 6

Beth mae'n feddwl os oes gen i newidiadau celloedd? 7

Beth fydd yn digwydd yn y clinig? 8

Beth am driniaeth? 11

Ydy'r driniaeth yn gweithio? 12

Pethau pwysig i'w gwybod 13

Ar ôl eich apwyntiad colposgopi - biopsi 14

Ar ôl eich apwyntiad colposgopi - Triniaeth 15

Beth os ydw i ddim yn teimlo'n dda ar ôl fy apwyntiad colposgopi? 16

Beth sydd yn digwydd nesaf? 17

Lle rydw i'n gallu cael rhagor o wybodaeth? 18

# Sut i ddefnyddio’r daflen yma

Mae hon yn daflen Hawdd ei Ddeall. Mae’r geiriau yn hawdd i’w darllen a’u deall. Mae geiriau anodd mewn print bras.




Efallai eich bod angen help i ddarllen a deall y daflen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu chi.




Mae’r daflen yma ar gael yn Saesneg.

# Beth sydd yn y daflen yma?




Mae'r daflen yma yn dweud wrthych chi beth fydd yn digwydd yn eich apwyntiad **colposgopi**.



**Colposgopi** ydy apwyntiad ysbyty i edrych ar iechyd ceg y groth. Mae ceg y groth y tu mewn i'ch corff ar frig eich fagina




Fe fydd y nyrs neu'r meddyg yn edrych yn agos ar geg y groth i weld os ydy'r celloedd ar geg y groth wedi newid.




Dydy hyn ddim yn meddwl bod gennych chi ganser ceg y groth.

# Pam ydw i angen colposgopi?

**Efallai eich bod angen colposgopi oherwydd:**




Roedd eich sgrinio serfigol (prawf ceg y groth) yn dangos rhywfaint o newid yn nghelloedd ceg y groth.



Mae eich profion sgrinio serfigol wedi dangos y **papilomafeirws dynol (HPV)**. Mae rhai mathau o HPV yn gallu achosi celloedd yng ngheg y groth i newid.




Rydych chi wedi cael eich sgrinio serfigol ond doedden ni ddim yn gallu rhoi canlyniad i chi.




Rydych chi'n gallu dysgu am HPV yn ein taflen Hawdd ei Ddeall '[Cael prawf ceg y groth  a phrofi am feirws o'r new HPV](#).'

Neu ewch i'n gwefan [icc.gig.cymru](#)/ a chwiliwch am 'Cervical Screening'.


# Beth mae'n feddwl os oes gen i newidiadau celloedd?




Fe fydd y llythyr canlyniad sgrinio serfigol yn dweud wrthych chi os oes gennych chi newid celloedd.



Os oes gennych chi newid celloedd efallai eich bod angen triniaeth i'w stopio nhw rhag dod yn ganser cegf y groth



Dydy pob newid celloedd ddim angen triniaeth.



Does gan y rhan fwyaf o fenywod sydd yn cael colposgopi ddim canser ceg y groth.

# Beth fydd yn digwydd yn y clinig?



Rydych chi'n gallu mynd â pherthynas, ffrind, gofalwr neu weithiwr cefnogi gyda chi.



Fe fydd y nyrs neu'r meddyg yn dweud wrthych chi pam eich bod yn y clinig a beth maen nhw'n mynd i'w wneud. Cyn i nyrs neu feddyg allu eich trin, rhaid iddyn nhw holi i weld os ydy hynny'n iawn gyda chi. Rydych chi'n gallu gofyn unrhyw gwestiwn.




Mae'n ddefnyddiol gwybod dyddiad eich misglwyf diwethaf.



Fe fydd yr apwyntiad yn cymryd tua 15 munud.

# Beth fydd yn digwydd yn y clinig?



Fe fyddan nhw'n gofyn i chi dynnu eich dillad o'ch canol i lawr.Efallai y bydd yn well i chi wisgo sgert neu ffrog.



Fe fyddwch chi'n cael gŵn bapur neu dywel papur i orchuddio eich hun. Fe fyddwch yn gorwedd ar wely arbennig.




Fe fydd y nyrs neu'r meddyg yn rhoi **sbecwlwm** yn ofalus i mewn i'ch fagina. Mae hwn yr un fath â'r offeryn oedd yn cael ei ddefnyddio pan wnaethoch chi gael eich sgrinio serfigol.



Fe fydd y nyrs neu'r meddyg yn edrych yn fwy agos ar geg y groth gan ddefnyddio offeryn arbennig. Dydy hwn ddim yn mynd i mewn i'ch fagina.


# Beth fydd yn digwydd yn y clinig?



Fe fydd y nyrs neu'r meddyg yn  rhoi ychydig o hylif ar geg y groth. Mae hyn yn gallu teimlo'n oer neu'n cosi.




Mewn rhai clinigau rydych chi'n gallu gweld ceg y groth ar sgrin.



Efallai bydd y nyrs neu'r meddyg yn cymryd **biopsi** os ydyn nhw'n meddwl bod gennych chi newidiadau celloedd. **Biopsi** ydy tynnu darn bach o groen o geg y groth.



Efallai y byddwch chi’n cael cynnig triniaeth i gael gwared o’r newidiadau celloedd. Mae gwahanol ffyrdd o drin newidiadau celloedd. Fe fydd y nyrs neu’r meddyg yn dweud wrthych chi beth ydyn nhw.



Efallai y byddwch angen **anaesthetig lleol**. Pigiad ydy hwn i geg y groth fel nad ydy’r driniaeth yn rhoi dolur i chi. Fe fyddwch chi’n effro yn ystod y driniaeth.



Dim ond os bydd rhywun  gyda chi y bydd rhai clinigau yn cynnig triniaeth i chi.

# Ydy'r driniaeth yn gweithio?



Mae'r driniaeth bron bob amser yn llwyddiannus. Efallai bod rhaid i rai menywod ddod yn ôl i gael triniaeth.



Mae'n bwysig iawn i chi fynd am ragor o brofion pan rydych chi'n cael gwahoddiad.



Trin newidiadau celloedd ydy'r ffordd orau o stopio menywod rhag cael canser ceg y groth.

# Pethau pwysig i'w gwybod



Os ydych chi'n cael eich misglwyf ar ddiwrnod eich apwyntiad ffoniwch y clinig os gwelwch yn dda.



Os ydych chi'n feichiog mae hi'n dal yn bwysig i chi fynd am eich apwyntiad colposgopi.



Os ydych chi'n feichiog fe fydd rhaid i chi aros tan ar ôl i chi fod yn feichiog i gael triniaeth.



Os oes gennych chi coil, defnyddiwch gondomau neu peidiwch â chael rhyw am 1 wythnos cyn eich apwyntiad.

# Ar ôl eich apwyntiad colposgopi - biopsi

**Os ydych chi wedi cael biopsi, am 1 wythnos ar ôl eich apwyntiad:**



- Peidiwch â chael rhyw




- Peidiwch â defnyddio tamponau



- Peidiwch â nofio

# Ar ôl eich apwyntiad colposgopi - triniaeth

**Os ydych chi wedi cael triniaeth, am 4 wythnos ar ôl eich apwyntiad:**



- Peidiwch â chael rhyw




- Peidiwch â defnyddio tamponau



- Peidiwch â nofio

# Beth os ydw i ddim yn teimlo'n dda ar ôl fy apwyntiad colposgopi?

Ffoniwch eich clinig colposgopi neu eich meddyg os ydych chi'n sylwi ar:



- Gwaedu trwm o'ch fagina sydd ddim yn fisglwyf.



- **Rhedlif** o'ch fagina sydd ddim yn normal i chi.



- Poen sydd ddim yn mynd i ffwrdd gyda thabledi lladd poen.




- Teimlo'n boeth ac yn oer.

**Gwnewch yn siŵr bod gennych chi rif ffôn y clinig cyn i chi fynd adref.**

# Beth sydd yn digwydd nesaf?



Fe fydd eich nyrs neu eich meddyg yn dweud wrthych chi os ydych chi angen rhagor o apwyntiadau neu driniaeth.



Os ydych chi wedi cael biopsi fe fyddwch chi’n cael llythyr yn dweud wrthych chi beth ydy eich canlyniadau a beth fydd yn digwydd nesaf.



Am wybodaeth neu gefnogaeth siaradwch gyda’ch nyrs neu eich meddyg.

# Lle rydw i’n gallu cael rhagor o wybodaeth?

Sgrinio Serfigol Cymru
Cervical Screening Wales



**Swyddfeydd Sgrinio Serfigol Cymru:**

**De Ddwyrain Cymru**
02920787910

**Canolbarth a Gorllewin Cymru**
01792940940

**Gogledd Cymru**
01352877899




Rydych chi’n gallu siarad gyda ni ar y ffôn yn Gymraeg.




Rydych chi’n gallu mynd i’n gwefan::
https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-serfigol-cymru1/

Jo’s cervical cancer trust

**Am ragor o wybodaeth a chefnogaeth am ganser ceg y groth ewch i:**

www.jostrust.org.uk

02030968100

Delweddau trwy garedigrwydd:
Photo symbols (tudalennau 2, 8, 9, 12)
Freepik (tudalennau 7, 8, 12, 13, 14, 16)